

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

BUPA Dental Care, Bangor,
Gwynedd

Dyddiad yr arolygiad: 1 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 2 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. What we did	5
2. Summary of inspection.....	6
3. What we found	8
• Quality of Patient Experience.....	8
• Delivery of Safe and Effective Care.....	12
• Quality of Management and Leadership	16
4. Next steps.....	19
Appendix A - Summary of concerns resolved during the inspection	20
Appendix B - Immediate improvement plan.....	22
Appendix C - Improvement plan	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o BUPA Dental Care, Bangor, Gwynedd ar 1 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn BUPA Dental Care, Bangor yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn glir i gleifion
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben
- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol

- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn BUPA Dental Care, Bangor. Roedd rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli'r practis yn effeithiol, gyda chymorth gan y grŵp corfforaethol ehangach
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

" Cwrtais, effeithlon, dim cwynion o gwbl"

" Ardderchog yn gyson"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth dda o daflenni a phosteri yn ardal y dderbynfa a ffolder gynhwysfawr o wybodaeth i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir, iechyd y geg ac iechyd cyffredinol, rhoi'r gorau i smygu, ac iechyd deintyddol i blant.

Roedd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ar gael ar wefan y practis yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardal aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd y cleifion.

Roedd prisiau'r triniaethau i'w gweld yn glir i gleifion ar bosteri yn y dderbynfa ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Gwelwyd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd.

Roedd naw egwyddor cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu allan i'r practis. Yn ogystal, roedd llyfryn gwybodaeth y practis yn cynnwys lluniau o aelodau o'r staff, eu henwau, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion a fyddai am gael sgwrs gyfrinachol fynd i swyddfa rheolwr y Practis neu ddeintyddfa wag.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ar y drws ffrynt, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion sy'n ffonio'r practis y tu allan i'r oriau agor arferol yn clywed neges peiriant ateb yn rhoi gwybod iddynt am rif ffôn symudol i'w ddefnyddio. Roedd y neges yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, er mwyn ystyried pa ddeintydd sydd ar ddyletswydd.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gellid trefnu apwyntiadau ar-lein drwy wefan y practis neu drwy borth i gleifion a oedd ar gael i gleifion cofrestredig.

Dyweddod y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ddyddiol a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion.

Dyweddod pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddod y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu Language Line UK ar gael iddynt pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Dyweddod y staff wrthym fod sawl iaith yn cael ei siarad yn y practis, gan gynnwys Cymraeg, ac roedd bathodynau enw'r staff yn cynnwys symbolau baneri i nodi pa ieithoedd roeddent yn eu siarad.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd poster yn rhoi gwybod i gleifion bod gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg ar gael.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni fod gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei rhannu drwy ohebiaeth a chyfarfodydd staff rheolaidd, a bod y practis yn mynd y tu hwnt i nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn cynnwys materion fel niwroamrywiaeth.

Dyweddod y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch

Gwelsom fod darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd mynedfa ochr ag arwyddion clir yn cael ei defnyddio fel mynediad i bobl anabl, wrth ymyl y manau parcio i bobl anabl. Roedd cloch ar y drws y gellid ei chanu er mwyn cael sylw, handlenni cydio a ramp symudol i'w gwneud hi'n haws symud dros stepen y drws. Roedd tair deintyddfa ar y llawr gwaelod, a phe bai angen i gleifion gael eu trin yn y deintyddfeydd hyn neu pe bai'n well ganddynt hynny, byddai hyn yn cael ei nodi yn eu cofnodion.

Roedd breichiau ar ddwy gadair yn yr ardal aros er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd ac roedd dolen sain ar gael i helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi bod y practis yn cynnig mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a bod deintyddfeydd a thoiledau addas. Fodd bynnag, er bod y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod, nid oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddararu'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau bod cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael gwybodaeth gywir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd polisi lechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, wedi'i ategu gan amrywiaeth gynhwysfawr o asesiadau risg. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd gan y practis Gynllun Parhad Busnes cyfredol, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng. Dywedodd y staff wrthym y gellid cael gafael ar wybodaeth am gleifion o bell pe byddai angen, ac roedd trefniadau ar waith a oedd yn golygu y gellid ailgyfeirio cleifion at bractis cyfagos.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad wedi'i gwblhau ar y gosodiadau trydanol.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff. Roedd yr ystafell a oedd yn cynnwys y loceri, a oedd yn cael ei defnyddio i newid yn bennaf, hefyd yn cynnwys y cywasgydd. Nid oedd modd cloi'r ystafell hon a byddai pobl heb awdurdod o bosibl yn gallu mynd i mewn iddi. Gwnaethom argymhell y dylid gosod clo, ac aeth rheolwr y practis ati i ymdrin â hyn yn ystod yr arolygiad, gan gyflwyno cais i'r contractwr cyfleusterau weithredu ar hyn. Rhoddwyd tystiolaeth ffotograffig yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol, arweinydd rheoli heintiau dynodedig a threfniadau glanhau effeithiol. Roedd y cadeiriau yn yr ardaloedd aros wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellid eu sychu'n lân ac roeddent mewn cyflwr da.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwnaethom edrych ar y trefniadau awyru yn yr ystafell ddihalogi a gwelsom fod y broses ar gyfer yr aer a oedd yn dod i mewn yn dda ond nad oedd yn ymddangos bod y system echdynnu yn gweithio. Trafodwyd hyn â rheolwr y practis a gadarnhaodd bod y system wedi cael ei gwasanaethu'n ddiweddar. Ymdriniwyd â'r mater ar unwaith. Cyflwynodd rheolwr y practis gais am waith atgyweirio yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd yn fuan wedi hynny fod y gwaith wedi'i gwblhau.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff ac roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol.

Nid oedd y practis yn dosbarthu meddyginiaethau yn uniongyrchol ac roedd presgripsiynau yn cael eu cynhyrchu drwy system electronig, fel y bo angen.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwnaethom nodi bod y cyffuriau brys yn cynnwys aspirin nad oedd yn wasgaradwy a gwnaethom argymhell y dylid defnyddio aspirin gwasgaradwy. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith drwy archebu aspirin gwasgaradwy.

Cadarnhaodd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio ocsigen mewn argyfwng fel rhan o'r hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, oherwydd hysbysiad diogelwch diweddar, gwnaethom argymhell hefyd y dylai'r staff gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod wyth aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith, eu bod ar gael i bob aelod o'r staff, a'u bod yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan. Roedd siartiau llif y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael i'r staff.

Roedd rheolwr y practis a'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant priodol hyd at Lefel 2 ar ddiogelu oedolion a phlant. Roeddent yn cael eu cefnogi gan Arweinydd Gwella Ansawdd yn y grŵp corfforaethol, a oedd yn gweithredu fel arweinydd diogelu ar gyfer y practis. Roedd yr arweinydd diogelu hwn wedi cwblhau hyfforddiant hyd at Lefel 4, sy'n lefel uwch ac yn arfer da gwerth ei nodi.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys y cywasgydd.

Gwelsom fod ffeil diogelu rhag ymbelydredd cyflawn a stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y clinigwyr yn cael cymorth da gan y grŵp corfforaethol a gwelsom dystiolaeth o ganllawiau a chynghor proffesiynol yn cael eu dilyn.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom fod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn ffordd dda iawn a chyson. Gwnaethom argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion fel mater o drefn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys dewis iaith y cleifion.

Rydym hefyd yn argymhell y dylai plant y mae eu dannedd blaen canolog a'u cildannedd wedi ymddangos gael archwiliad blynyddol (Archwiliad Periodontol Sylfaenol neu BPE) er mwyn canfod achosion o beriodontitis cychwynnol yn gynnar, yn unol â'r canllawiau.

Rydym yn argymhell y dylai deintyddion y practis gynnal archwiliadau BPE bob blwyddyn ar blant a chleifion yn eu harddegau, fel y bo'n briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cwblhaodd dau aelod o'r staff holiadur AGIC, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol wrth sôn am y practis a sut roedd yn gweithredu. Roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion, a byddent yn argymhell y practis fel rhywle da i weithio.

Nododd un aelod o'r staff:

"Rydym wir yn dangos gofal tuag at y cleifion, rydym am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Rwy'n teimlo ein bod yn cael ein cefnogi gan y tîm rheoli er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwneud y gwaith yn dda"

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd rheolwr y practis, wedi'i gefnogi gan grŵp corfforaethol. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyfarfodydd rheoli perfformiad yn rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roeddent yn cael eu storio ar system electronig, a oedd yn golygu eu bod ar gael i bob aelod o'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd rhai o'r gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal gan y practis a rhai gan y grŵp corfforaethol.

Roedd rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio, a oedd yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, ac roedd gwiriadau yn cael eu cynnal

drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd rhestrau gwirio sefydlu yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y staff yn deall materion a oedd yn ymwneud â'r practis a'r safle, ac unrhyw faterion a oedd yn benodol i'w rôl.

Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio fel y bo angen a bod rhestrau gwirio tebyg yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio, ac er mwyn iddynt ymgysylltu â'r practis a'i weithdrefnau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei fonitro mewn ffordd weithredol gan ddefnyddio system electronig ac roedd cyfleoedd dysgu da ar gael i'r staff drwy'r grŵp corfforaethol. Gwelsom gydymffurfiaeth dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd ymdrechion penodol yn cael eu gwneud i gasglu adborth gan gleifion, drwy ofyn iddynt adael adolygiadau ar-lein. Roedd cleifion hefyd yn cael negeseuon e-bost ar ôl eu triniaeth yn gofyn am adborth, y gellid ei gyflwyno drwy borth electronig. Gwelsom fod ffurflenni papur hefyd ar gael yn yr ardal aros, y gellid eu cyflwyno gan ddefnyddio blwch awgrymiadau wrth y drws ffrynt.

Dangosodd y staff sut roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i rannu â'r staff.

Roedd poster 'dywedo chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros, yn dangos y camau gweithredu a oedd wedi cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i'r weithdrefn gwyno, yn benodol:

- roedd y weithdrefn yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion gyflwyno cwynion i reolwr y practis, ond nid oedd yn nodi manylion cyswllt ar ei gyfer.
- roedd yn cynnwys manylion am AGIC ond nid oedd yn cynnwys y cyfeiriad post na'r rhif ffôn.

- roedd yn cyfeirio at Gyngorau Iechyd Cymuned, ond mae'r cynghorau hynny wedi'u disodli bellach gan Llais, fel sefydliad eiriolaeth Cymru gyfan.

Cafodd y materion hyn eu trafod â rheolwr y practis a gwnaed gwelliannau i'r ddogfen yn ystod yr arolygiad. Darparwyd dogfen ddiwygiedig foddhaol yn fuan wedi hynny.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion bach ar lafar yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, a bod cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio systemau electronig. Roedd cwynion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a dywedodd y staff wrthym fod unrhyw faterion neu dueddiadau yn cael eu nodi. Roedd unrhyw gamau a gymerwyd a gwersi a ddysgwyd o gwynion yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd staff fel arfer.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth, ac roedd system adolygu a chymorth effeithiol ar waith ar gyfer y staff clinigol.

Roedd system electronig a ddarperir gan y grŵp corfforaethol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro, cofnodi, amlygu a neilltuo camau gweithredu er mwyn gwella ansawdd.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys rhagnodi gwrthficrobaidd, ansawdd radiograffig, iechyd a diogelwch a gofynion WHTM 01-05. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu wedi cael ei gynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhoi'r gorau i smygu ei gynnwys yn y rhaglen archwilio.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd modd cloi'r ystafell sy'n cynnwys loceri'r staff a'r cywasgydd.	Gallai pobl heb awdurdod o bosibl gael gafael ar gyfarpar.	Gwnaethom argymell wrth reolwr y practis y dylid gosod clo.	Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad, a chyflwynodd rheolwr y practis gais i'r contractwr cyfleusterau osod clo. Rhoddwyd tystiolaeth ffotograffig yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y gwaith wedi'i gwblhau.
Nid oedd yn ymddangos bod y gwyntyll echdynnu yn yr ystafell ddihalogi yn gweithio.	Gallai diffyg dull awyru digonol yn yr ardal hon effeithio ar fesurau rheoli heintiau.	Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis.	Ymdriniwyd â'r mater ar unwaith. Cyflwynodd rheolwr y practis gais am waith atgyweirio ar unwaith a chadarnhaodd yn fuan wedi hynny fod y gwaith wedi'i gwblhau.
Roedd y cyfarpar meddygol brys yn cynnwys aspirin nad oedd yn wasgaradwy.	Dylai aspirin gwasgaradwy fod ar gael pe bai argyfwng meddygol.	Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith. Cafodd aspirin gwasgaradwy ei archebu a'i ychwanegu at y pecyn cymorth i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Roedd angen gwneud gwelliannau i'r weithdrefn gwyno, gan gynnwys sut i gysylltu â rheolwr y practis, manylion cyswllt AGIC a manylion y gwasanaeth eirioli.	Dylid darparu manylion llawn i gleifion i'w galluogi i godi neu uwchgyfeirio cwyn yn effeithiol os bydd angen.	Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis.	Dechreuwyd gwella'r ddogfen yn ystod yr arolygiad, a darparwyd dogfen ddiwygiedig foddhaol yn fuan wedi hynny.
---	--	---	--

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: BUPA Dental Care, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 1 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Teitl swydd: Dd/G

Dyddiad:

Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: BUPA Dental Care, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 1 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn awgrymu, yn anghywir, fod y toiled i gleifion yn y practis yn hygyrch i gadeiriau olwyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarar'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael gwybodaeth gywir.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 7	Caiff taflen wybodaeth newydd i gleifion ei chreu, gan sicrhau bod y geiriad yn nodi'n glir pa gyfleusterau sydd ar gael i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.	Rheolwr y Practis	31 Rhagfyr 2024
2.	Yn dilyn hysbysiad diogelwch diweddar, rydym yn argymhell y dylai'r staff gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(b)	Mae 12 o'r 16 o aelodau o'r tîm wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r gweddill wedi cytuno i'w gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2024.	Rheolwr y Practis	31 Rhagfyr 2024

3.	Nid oedd dewis iaith cleifion yn cael ei gynnwys yn y cofnodion fel mater o drefn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys dewis iaith y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei roi ar waith; rydym yn nodi'r dewis iaith ar Dentally gan ddefnyddio cyfleuster nodiadau.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
4.	Lle y bo'n briodol, dylai plant gael Archwiliad Periodontol Sylfaenol (BPE) er mwyn canfod achosion o beriodontitis cychwynnol yn gynnar.	Rydym yn argymhell y dylai deintyddion y practis gynnal archwiliadau BPE bob blwyddyn ar blant a chleifion yn eu harddegau, fel y bo'n briodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei roi ar waith; rhoddwyd gwybod i'r deintyddion am y gofyniad hwn ac maent wedi cytuno i'w gwblhau lle y bo'n briodol.	Deintyddion	Wedi'i gwblhau
5.	Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhoi'r gorau i smygu ei gynnwys yn y rhaglen archwilio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1)	Rydym wedi cysylltu â thîm Gwella Ansawdd deintyddol AaGIC i gofrestru i gwblhau'r archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu. Mae'r deintyddion wedi cytuno i'w gwblhau pan fydd y broses gofrestru wedi'i chwblhau.	Deintyddion	31 Mawrth 2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): G Innocent

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 5 Rhagfyr 2024